

Canllawiau Nawdd

Y Gystadleuaeth a'r Amcan

Nod ac amcan y fenter hon yw cyflwyno Offer TG i Ysgolion Cynradd / Uwchradd, Grwpiau Cymunedol a Chlybiau yng Nghymru a hyrwyddo gwaith Sefydliadau Gwirfoddol ac Elusennol sy'n cefnogi dysgu digidol ar gyfer plant rhwng 7 a 14 oed.

Cynhelir Digwyddiad Gwobrau'r Gystadleuaeth yng Nghanolfan Ddatblygu Richard Ley (RLDC) yn Abertawe ar 4 Rhagfyr 2018.

Bydd cynulleidfa o tua 200 o blant a 180 o oedolion o Ysgolion Cynradd / Uwchradd a Grwpiau Cymunedol yn bresennol.

Hefyd, bydd modd i'r rhai hynny nad ydynt yn gallu bod yn bresennol oherwydd eu lleoliad, neu'r ffaith nad oes lle iddynt yn y ganolfan, wylïo'r digwyddiad drwy ffrwd fyw.

Ac eithrio'r 8 yn y rownd derfynol, bydd **pob** grŵp sy'n cymryd rhan yn y gystadleuaeth, sy'n bresennol yn y digwyddiad yn y ganolfan, neu'n gwylïo drwy'r ffrwd fyw, yn cael eu cynnwys yn y raffl.

Strwythur Gwobrau

Dyma'r strwythur gwobrau ar gyfer y gystadleuaeth a'r raffl:

Gwobr	I brynu	Gwobr ar gyfer grŵp oedran 7 – 11 oed	Gwobr ar gyfer Grŵp Oedran 11 – 14 oed	Rhodddwyd gan:
Gwobr 1 ^{af}	Offer TG	Gwerth £ 2000	Gwerth £ 2000	DVLA a Nawdd
2 ^{il} Wobr	Offer TG	Gwerth £ 1500	Gwerth £ 1500	DVLA a Nawdd
3 ^{edd} Wobr	Offer TG	Gwerth £ 1000	Gwerth £ 1000	DVLA a Nawdd
Agos i'r brig	Offer TG	Gwerth £ 750	Gwerth £ 750	DVLA a Nawdd
Raffl	Amrywiol – Pecynnau <i>Microbit</i> , Gliniaduron, Pecynnau <i>Raspberry Pi</i> , Pecynnau Roboteg Raglenadwy, ac ati.	Gwerth y wobr - o £200 i uchafswm o £400 fesul Ysgol Gynradd / Uwchradd, Grŵp Cymunedol neu glwb	Gwerth y wobr - o £200 i uchafswm o £400 fesul Ysgol Gynradd / Uwchradd, Grŵp Cymunedol neu glwb	Nawdd

Ar gyfer beth y defnyddir eich nawdd?

Bydd **pob** rhodd gan noddwyr yn cael eu defnyddio ar gyfer y Prif Wobrau a'r Raffl yn rhan o'r strwythur gwobrau uchod. Bydd DVLA, yn ôl ei disgrisiwn, yn dosbarthu gwobrau noddwyr mewn modd sy'n sicrhau bod y nifer fwyaf posib o ysgolion a grwpiau yn manteisio arnynt. Os yw'r rhodd yn un ariannol, caiff ei defnyddio i brynu offer TG neu dalebau i brynu offer TG. Os yw'r rhodd ar ffurf caledwedd ffisegol, fe'i dosberthir ymysg enillwyr y Gwobrau.

Bydd **Pob** rhodd gan noddwyr, boed yn ariannol neu'n gydrannau ffisegol, yn cael eu dosbarthu i Ysgolion Cynradd / Uwchradd, Grwpiau Cymunedol a Chlybiau yng Nghymru.

DVLA fydd yn talu am gynnal y digwyddiad, y logisteg, yr hysbysebu, y drefniadaeth, danfon y gwobrau lle bo angen ac unrhyw gostau eraill. Drwy hyn, sicrhewir y bydd **100% o'r nawdd**, ym mha bynnag ffurf y daw, yn cael ei drosglwyddo i'r Ysgolion Cynradd / Uwchradd, y Grwpiau Cymunedol a'r Clybiau.

Byddai'n well gennym nawdd ar ffurf cyfraniad ariannol neu wobrau y gall DVLA eu rhoi i'r enillwyr. Gallai'r gwobrau fod yn unrhyw beth y gall plant ei ddefnyddio i ddysgu sgiliau digidol yn y meysydd Codio, Peirianeg neu Dechnoleg.

DVLA yn unig fydd yn gyfrifol am ddyrannu'r gwobrau i'r holl enillwyr.

Caiff manylion ynglŷn â sut y gellir gwneud rhoddion nawdd eu pennu gyda chi os byddwch yn cydsynio i noddi'r digwyddiad.

Os ydych o'r farn y gallwch gyfrannu mewn ffordd arall, rydym yn hapus i drafod eich cynnig.

Lefel y Nawdd

Oherwydd llwyddiant y digwyddiad diwethaf a'r nawdd a dderbyniwyd, rydym wedi cyflwyno dwy lefel nawdd, sef lefel **Unigryw** a lefel **Hyrwyddo**. Mae hyn yn cynnig gwahaniaethau cyfyngedig i fandiau nawdd eang er mwyn sicrhau lefelau sy'n hygyrch i bob noddwr, boed yn fusnesau lleol bach neu'n fentrau corfforaethol mawr.

Felly, mae gwerth y cyfraniad yn ôl eich disgrisiwn chi yn llwyr, er, fel arweiniad, byddwn yn derbyn unrhyw gyfraniad sy'n ddigonol i roi Gwobr Raffl i o leiaf un Ysgol neu Grŵp fel yr amlinellir yn y strwythur gwobrau uchod.

Lefel	Gwerth y Cyfraniad	Ein Hymrwymiad i Chi
Unigryw	£3000 neu fwy	Caiff Enw / Logo eich Cwmni ei gynnwys yn y canlynol; a) Baner gystadleuaeth i'w harddangos ym mhob digwyddiad Rhaglen STEM DVLA a fynychir hyd at 31 Rhagfyr 2018 e.e. Gŵyl Wyddoniaeth Abertawe, Sadwrn Gwyddonol Gwych, yr Eisteddfod Genedlaethol (sy'n denu mwy na 150,000 o ymwelwyr), Gweithdai Cymunedol ac Ysgol ac ati (3 – 4 digwyddiad bob blwyddyn fel arfer) b) Unrhyw daflenni a llyfrynnau a argraffir ac a ddosberthir i Ysgolion a Grwpiau ar draws Cymru. Bydd taflenni a llyfrynnau hefyd ar gael i'w lawrlwytho oddi ar y wefan. c) Logo a dolen ar wefan ein cystadleuaeth. d) Ymgyrch gyfryngau / cyfryngau cymdeithasol DVLA. Cyfeirir at y ffaith bod y digwyddiad hwn wedi'i noddi ac y gellir gweld rhestr lawn ar wefan y gystadleuaeth.
Hyrwyddo	Hyd at £2999	Caiff Enw / Logo eich Cwmni ei gynnwys yn y canlynol; a) Unrhyw daflenni a llyfrynnau a argraffir ac a ddosberthir i Ysgolion a Grwpiau ar draws Cymru. Bydd taflenni a llyfrynnau hefyd ar gael i'w lawrlwytho oddi ar y wefan. b) Logo a dolen ar wefan ein cystadleuaeth

		c) Ymgyrch gyfryngau / cyfryngau cymdeithasol DVLA. Cyfeirir at y ffaith bod y digwyddiad hwn wedi'i noddi ac y gellir gweld rhestr lawn ar wefan y gystadleuaeth.
--	--	--

Beth fyddwch chi'n ei gael yn gyfnewid am eich Nawdd?

Yn gyfnewid am eich nawdd, byddwn yn darparu'r cyhoeddusrwydd a amlinellir yn yr adran "**Ein Hymrwymiad i Chi**" uchod. Hefyd, ar ddiwrnod y digwyddiad byddwn yn cynnal ffrwd fyw o'r diwrnod cyfan i ysgolion ar draws Cymru, bydd Enw / Logo eich Cwmni yn cael ei arddangos ynghyd ag unrhyw ddyfyniadau y dymunwch eu rhannu ynglŷn â'ch cefnogaeth i'r gystadleuaeth, ar sgriniau ochr yn y lleoliad drwy gydol diwrnod y digwyddiad, a byddant yn weladwy yn ystod y ffrwd fyw. Hefyd, bydd nifer o fyrddau ar gael os dymunwch anfon cynrychiolwr. Bydd y rhain wrth ymyl y Theatr Ddigidol lle y cynhelir y digwyddiad ac yn gyffredinol fe'u defnyddir ar gyfer gweithgareddau rhyngweithiol i hyrwyddo eich cwmni. Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael, a bydd rhaid gwneud cais amdanynt. Dyrennir y rhain ar sail cyntaf i'r felin. Cofiwch mai'r brif gynulleidfa yn y digwyddiad fydd plant rhwng 7 a 14 oed a'u hathrawon, ond byddai modd gweld eich bwrdd ar y ffrwd fyw yn ystod egwyliau a chinio.

Y dyddiad cau ar gyfer argraffu'r taflenni a'r baneri cystadleuaeth i'w harddangos yw **29/04/2018**, a bydd y baneri cystadleuaeth yn cael eu hailargraffu unwaith ar **31/06/2018**, felly bydd angen i chi ymrwymo cyn y dyddiadau hyn os dymunwch gael eich cynnwys ar y taflenni neu'r baneri gan ddibynnu ar lefel y nawdd. Ni chaiff noddwyr sy'n ymrwymo ar ôl y dyddiadau hyn eu cynnwys ar y deunydd argraffedig, ond cânt eu cynnwys ym mhob agwedd arall gan ddibynnu ar lefel y nawdd. Bydd eich brandio, gyda'ch caniatâd chi, ynghyd ag unrhyw ddeunydd hyrwyddo cytunedig yr hoffech ei gyflenwi, hefyd yn weladwy drwy gydol y digwyddiad, sy'n berthnasol i bob lefel nawdd. Bydd y baneri cystadleuaeth terfynol yn cael eu hargraffu ym mis Tachwedd gan gynnwys pob noddwr perthnasol.

Os ydych o'r farn y gallwch gyfrannu mewn ffordd arall, rydym yn hapus i drafod eich cynnig cyn belled y gellir ei drosglwyddo i'r Ysgolion a'r Grwpiau neu ei gyfrannu at amcan y gystadleuaeth h.y. cyflwyno Offer TG i Ysgolion Cynradd a Grwpiau Cymunedol yng Nghymru a hyrwyddo gwaith y Sefydliadau Gwirfoddol ac Elusennol sy'n cefnogi dysgu digidol ar gyfer plant rhwng 7 a 14 oed.

Yn y digwyddiad ym mis Rhagfyr, efallai y dymunwch ddarparu deunydd hyrwyddo eich cwmni e.e. beiros, taflenni ac ati. Os felly, rydym yn hapus i drafod hyn gyda chi ac os cytunir, dosbarthu'r rhain i'r gynulleidfa ar ôl i'r digwyddiad ddod i ben.

Nid yw hyn yn rhan o'r nawdd ac mae yn ôl eich disgrisiwn chi yn llwyr.

Y dyddiad cau ar gyfer nawdd yw **01/09/2018**.

Atebolrwydd

I osgoi amheuaeth, mae'n ddisgwyliad gennym y bydd unrhyw becyn y gallwch ei gyflenwi yn rhan o drefniadaeth nawdd dan warant lawn yn unol â'ch arfer cyffredin ac y byddwch yn gweithredu egwyddorion Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 ar gyfer eitemau wedi'u difrodi neu eitemau nad ydynt yn addas at y diben.

Bydd DVLA yn gweithredu fel cyfryngwr pe bai digwyddiadau o'r fath yn digwydd.

Teitl a Pherchnogaeth

Mae'n ddisgwyliad gennym y bydd Teitl a Pherchnogaeth pecyn a ddarperir yn cael eu trosglwyddo gennych chi i'r ysgol lwyddiannus ar ôl iddi dderbyn y pecyn. Bydd hyn yn gweithredu fel cychwyn y cyfnod gwarant.

A gaf i hysbysebu hyn ar wefan fy nghwmni?

Wrth gwrs, byddwn yn eich annog i wneud hynny. Mae hawl gennych i hysbysebu eich rhan yn y gystadleuaeth, y gystadleuaeth ei hun a'r Digwyddiad Gwobrau, ar yr amod eich bod yn cyfeirio at wefan y gystadleuaeth ac yn nodi eich bod yn cymryd rhan er mwyn hyrwyddo neu gefnogi amcan y gystadleuaeth.